Bwriwch olwg fanylach ar... RISGL

Gan ei fod wedi'i lapio'n dynn o amgylch coeden, y rhisgl yw ei haenen warchodol. Ychydig o dan y rhisgl mae'r pibellau bregus sy'n cludo bwyd a dŵr trwy'r boncyff i'r gwreiddiau a'r dail.

Edrychwch ar y coed o'ch cwmpas - sylwch sut mae gan risgl coed gwahanol liwiau, gweadau a phatrymau unigol. Mae craciau, lympiau a chreithiau rhisgl yn gartref i fyd o fywyd gwyllt bychan, gwibiog, turiol.

- Gall rhisgl fod mor denau â phapur ac, fel sy'n wir am hen goed coch enfawr, mor drwchus â wal tŷ!
- Mae rhisgl hefyd yn ein helpu – daw prif gynhwysyn aspirin o risgl coed helyg.
- Defnyddid tanin o risgl i drin crwyn anifeiliaid i gynhyrchu lledr ers yr oes Rufeinig.
- Defnyddid rhisgl i wneud lliain, canŵod, rhaffau, papur a mapiau.
- Wrth ichi ddathlu â gwydraid o rywbeth pefriog, cofiwch fod y corcyn yn dod o risgl coeden dderw gorc.

Ewch i Trees for Life i ddysgu mwy am risgl a gwefan y Cyngor i gael gwybod mwy am fywyd gwyllt rhyfeddol Sir Gaerfyrddin.

Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire **Biodiversity** Partnership

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council